

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 30AIN O FAWRTH 2020 TRWY SKYPE AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Bari Evans, Stan Williams, Hywel Davies, Arwel Davies, Ceri Davies, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: y Cyngorwyr Iwan Jones, Philip Williams, Geraint Jones a Falmai Evans.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Cyngorwyr Elfed Williams a Bari Evans ar eitem 8 isod.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 24ain o Chwefror 2020.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad diweddar y Cadeirydd fod Hamish Sennett o "Vale Wisp Broadband" wedi cychwyn gwneud ymholiadau yn lleol a gyda'r awdurdodau i gael gwasanaeth daprau band eang o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanrhaeadr ac mi fydd y Cadeirydd yn ein hadroddi ymhellach yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Derbyniwyd adroddiad Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r canlynol:-

- 1: Tipio anghyfreithlon wrth y ffordd ar dir Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr - mater i'r perchnogion Bryn Morfydd i'w chlririo.
2. Tirlithriad ar y ffordd o'r tir Penbryllan, Llanrhaeadr - mi fydd y Cyngor Sir yn trwsio'r broblem cyn gynted â phosib.

C. Mi fydd Adran Briffyrdd yn edrych i mewn i'r materion canlynol cyn gynted â phosib:-

1. Tyllau ar y ffordd heibio Rossa Fawr, Prion.
2. Dwr ar y ffordd yn llifo o gaeau Cae'r Mynydd, Saron.
3. Tyllau yn y ffordd a dŵr yn casglu ar y ffordd heibio Tyn-y-ffordd rhwng Prion a Peniel.
4. Tyllau yn y ffordd rhwng Tyddyn Isa' a Bryn Mulan, Prion.
5. Arwydd ffordd ar goll wrth gyffordd Pen-y-Groes, Prion.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc £13,340.00.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Cyngorydd Stan Williams – tal lwfans Cyngorydd 2019/2020 - £120.00.
2. Cyflog am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2020 £480.00.
3. Cyllid a Thollau EM – treth PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2020 £150.00.
4. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2020 £756.48.

6. CEISIADAU AM GYMORTH ARIAN BLYNYDDOL.

A. Capel Saron am dorri glaswellt Fynwent Capel Saron - Penderfynwyd rhoi gymhorthdal o £500.00.

B. Gofal Dydd a Helpu'n Gilydd, Capel Annibynwyr Waengoleogoedd, sydd yn cymorth i bum aelod o'r boblogaeth o fewn Cymuned Llanrhaeadr. Penderfynwyd rhoi gymhorthdal o £500.00.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A: Cais Cynllunio 23/2020/0133 - Datblygu 0.07ha o dir drwy godi annedd ar wahân (cais amlinellol yn cynnwys mynediad) yn St. James's Church, Prion. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:-

1: Pryderon ynglŷn â'r ffaith fod yr ymgeisydd eisoes yn gwneud gwaith yn yr Eglwys sydd yn groes i'r hyn sydd wedi ei gytuno yn y caniatâd cynllunio a dderbyniwyd yn 2015, a bod y gwaith yma'n parhau ar gyfnod pam nad ydym i fod yn teithio i unrhyw le os nad yw'n angenrheidiol yn sgil y pan demig Carniforus.

2. Traffig ychwanegol ar y safle, yn benodol mynediad i ffordd gul sydd eisoes yn cael defnydd gan y gymuned a'r ysgol yn cynnwys tacsis, rhieni yn cerdded hefo plant, a phlant ysgol yn cerdded i'r cae chwarae.

3. Pryderon ynglŷn â'r trefniadau carthffosiaeth sydd yn annhebygol o fod yn ddigonol ar gyfer safle o'r maint yma.

4. Angen arolwg ecolegol llawn ar y safle

5. Natur y datblygiad (llety gwyliau) sydd yn anaddas i'r ardal, yn agos i dai, yr ysgol a'r fynwent. Hefyd, gan nad yw'r ymgeisydd yn byw yn lleol, dim sicrwydd ynglŷn â sut y bydd y cynllun yn cael ei reoli (e.e. problemau sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol os oes nifer fawr o bobl yn aros yno).

6. Pryderon diogelu plant o gael safle tai gwyliau (fydd yn dal hyd at 28 o bobl ar un tro) mor agos i ysgol. Mae uchder yr adeilad sy'n cael ei gynnig yn golygu y bydd yn edrych dros fuarth yr ysgol.

7. Edrychiad yr adeilad arfaethedig dim yn cyd-fynd hefo adeiladau eraill yn lleol.

B. Cais Cynllunio: 23/2020/0179 – Bwriad i godi estyniadau ac addasiadau i anheddau presennol yn Rhewl Farm, Prion – dim gwrthwynebiad.

C. Cais Cynllunio: 23/2020/0201 – Codi estyniad i gefn yr annedd yn Coed Derw, Prion - dim gwrthwynebiad.

8. CRONFA SYMIAU CYMUNEDOL MANNAU AGORED CYNGOR SIR DDINBYCH.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn dau gais (Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr Y.C a Chyd Bwyllgor Rheoli Canolfan Addysg Bro Cinmeirch) i'r "Cronfa Symiau Cymunedol Agored Cyngor Sir Ddinbych" o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanrhaeadr, gyda'r cyfanswm y gronfa yn £2,400.00 a gofynni'r farn y Cyngor Cymuned am ddsbarthu'r gronfa. Penderfynwyd rhoi'r awgrym fod Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr yn derbyn £1,000.00 a'r Cyd Bwyllgor Rheoli Canolfan Addysg Bro Cinmeirch yn derbyn £1,400.00.

9. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd cadarnhad fod Sheppard's Homes yn fodlon ariannu'r arwydd newydd "Pentre' Llanrhaeadr" sydd eisiau ei adnewyddu ar y A525 wrth y datblygiad newydd ym Mhentre' Llanrhaeadr. Cytunodd y Clerc I wneud yr ymholiad gyda'r Cyngor Sir Ddinbych i adnewyddu'r arwydd.

10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Adroddwyd Cynghorydd Joseph Welch y canlynol:-

A: Ni does yna cyfarfodydd Cyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd oherwydd y firws Covid-19.

B. Rhoddwyd manylion cyswllt o fewn y Cyngor Sir ynglŷn ar gymorth Covid-19.

C. Cymorth oddi wrth Gadwyn Clwyd ynglŷn ar Covid-19.

D. Rhoddwyd rhestr o ffyrdd sydd angen sylw i'r Cynghorydd Sir.

11. MATERION BRYN O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Rhodddwyd rhestr o'r cwmnïau lleol sydd yn dosbarthu nwyddau i'r tai trigolion lleol yn ystod yr Covid-19, sef:-

A: Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr.

B. Daniel Morris, Cigydd o Ddinbych.

C. Barry Roberts – Llefrith.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Ebrill 2020 am 7.30 o'r gloch trwy "Skype".